| | |
|---|---|
| **Dyddiad Creu:** | 15/06/18 |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | 01/12/22 |
| **Rhif y Fersiwn:** | 3.10 |

| | |
|---|---|
| **Man Gwasanaeth:** | Tai |
| **Man Gweithio:** | Tai'r Sector Cyhoeddus - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai |
| **Manylion Cyswllt:** | Rachel Hawker, Swyddog Datblygu Gwasanaeth<br>Rhif ffôn: 01443 811408<br>E-bost: hawker@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Tai'r Sector Cyhoeddus |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd Cartrefi Caerffili'n casglu a phrosesu gwybodaeth amdanoch chi, er mwyn eich galluogi i reoli eich contract meddiannaeth ar gyfer tai a/neu denantiaeth garej yn llwyddiannus a delio â’r cyllid sy’n gysylltiedig â’r contract a/neu’r denantiaeth honno. Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon i roi'r cyfle i chi gymryd rhan mewn ymgysylltu â thenantiaid/cynnwys deiliaid contract. Byddwn hefyd yn cofnodi ac efallai prosesu gwybodaeth am bobl eraill sy'n byw gyda chi; i sicrhau nad yw'r eiddo'n orlawn ac i asesu materion rheoli tenantiaeth eraill sy'n ymwneud â phobl eraill yn eich cartref.<br><br>Efallai y bydd achlysuron pan fyddwn yn casglu a phrosesu gwybodaeth am bobl nad ydynt yn ddeiliaid contract er mwyn rheoli cysylltiad oddi wrthynt neu yn unol â rhwymedigaeth gyfreithiol. |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Cesglir eich gwybodaeth at ddibenion gweinyddu a rheoli eich contract meddiannaeth/tenantiaeth garej, darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai, ymgysylltu â deiliaid contract, rheoli cysylltiadau a phrosesu ein cyfrifoldeb cyfreithiol.

### Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Defnyddir y wybodaeth a gasglwn oddi wrthych i reoli'r contract meddiannaeth/tenantiaeth garej rhyngoch chi a Chartrefi Caerffili, rheoli cysylltiadau a phrosesu ein rhwymedigaethau cyfreithiol, mae hyn yn cynnwys:

- Rheoli eich cyfrif rhent, ad-daliadau a thaliadau dyled sy'n gysylltiedig â thai, gan gynnwys casglu unrhyw ôl-ddyledion.
- Rheoli atgyweiriadau, gwelliannau, cynnal a chadw ac addasiadau i'ch cartref a/neu garej.
- Sicrhau cydymffurfiaeth ag amodau eich contract meddiannaeth/tenantiaeth garej, megis delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu dwyll.
- Darparu cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai.
- Cydymffurfio â deddfwriaeth a gofynion perthnasol.
- Rheoli'r gwasanaeth cwynion.
- Rheoli ein rhwymedigaethau cyfreithiol, megis cyfrifoldebau cynnal a chadw ar y cyd, caniatâd landlordiaid i gyn-ddeiliad contract/tenantiaeth garej.

Efallai y bydd y wybodaeth hefyd yn cael ei defnyddio i roi'r cyfle i chi gymryd rhan mewn ymgysylltu â deiliaid contract/cynnwys deiliaid contract, mae hyn yn cynnwys:

- Arolygon i asesu a gwella ein gwasanaethau
- Digwyddiadau i godi eich ymwybyddiaeth neu i gael eich barn ar ein gwasanaethau tai
- Hyfforddiant / cynadleddau i wella'ch sgiliau
- Gweithgareddau i rannu syniadau a gwybodaeth mewn perthynas â gwasanaethau tai.

Defnyddiwn amrywiaeth o ffynonellau i gasglu gwybodaeth oddi wrthych, gan gynnwys pan fyddwch yn gwneud ceisiadau am dai neu wneud cais am wasanaethau, pan fyddwch chi'n ffonio, ysgrifennu, e-bostio, cwrdd â ni neu'n ymateb i arolwg neu fynychu gweithgaredd neu ddigwyddiad.  Efallai y byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth pan fyddwch yn defnyddio ein gwefannau cyfryngau cymdeithasol neu wefan y cyngor.

Byddwn yn defnyddio'ch manylion cyswllt i gyfathrebu â chi gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, a all gynnwys, llythyr, e-bost, testun ffôn neu gyfryngau cymdeithasol.

Efallai y byddwn yn defnyddio ffotograffiaeth fel tystiolaeth o unrhyw dorri contract neu denantiaeth garej, ymddygiad gwrthgymdeithasol honedig neu droseddau.  Weithiau, mae ein galwadau tirwifren yn cael eu cofnodi at ddibenion hyfforddiant, monitro a thystio.

Byddwn yn tynnu llun ohonoch wrth gofrestru contract meddiannaeth a ddefnyddir at ddibenion adnabod.  Efallai y byddwn hefyd yn tynnu ffotograffau yn ein digwyddiadau, yn ein heiddo ac yn ein cymunedau i'w defnyddio at ddibenion cyhoeddusrwydd.  Fodd bynnag, dim ond ar gyfer y dibenion hynny gyda chydsyniad yr unigolyn y bydd unrhyw ffotograffau o unigolion yn cael eu defnyddio.

Rydym yn gweithredu teledu cylch cyfyng ar gyfer canfod ac atal troseddau a diogelwch cymunedol yn ein swyddfeydd/adeiladau sy'n darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai.  Rydym hefyd yn gweithredu offer cofnodi sŵn i ddal tystiolaeth o dorri contract meddiannaeth/tenantiaeth garej a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol honedig.

Defnyddir yr wybodaeth a gasglwn amdanoch i lunio a gwella ein gwasanaethau i gwrdd â'ch amgylchiadau ac anghenion penodol yn well.  Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon at ddibenion diogelu.

Mae'r math o wybodaeth a gasglwn amdanoch yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:

- Ffotograff a dynnwyd ar ddechrau contract meddiannaeth gan aelod o Gartrefi Caerffili
- Prawf o'ch hunaniaeth
- Enw Llawn
- Dyddiad Geni

- Rhif Yswiriant Gwladol (eich dynodwr unigryw)
- Statws Priodasol
- Rhyw
- Manylion cyswllt
- Ethnigrwydd
- Iaith
- Crefydd
- Manylion unrhyw un sydd â hawl i weithredu ar eich rhan os yw'n berthnasol
- Manylion pawb sy'n preswylio yn y cartref
- Cyfrif dyled rhent / dyled sy'n gysylltiedig â thai
- Manylion bancio os ydych chi'n talu'ch rhent neu am unrhyw daliadau eraill sy'n gysylltiedig â'ch contract meddiannaeth/tenantiaeth garej drwy ddebyd uniongyrchol.
- Prawf o gymhwyster tai a hanes tai blaenorol.
- Anabledd - efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i deilwra ein gwasanaethau i gwrdd â'ch amgylchiadau ac anghenion penodol yn well.
- Bregusrwydd - efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i deilwra ein gwasanaethau i gwrdd â'ch amgylchiadau ac anghenion penodol yn well.
- Gwybodaeth ariannol - efallai y byddwn yn defnyddio hyn gyda'ch caniatâd i helpu i ddatrys taliadau ôl-ddyledion, gwneud cais am gyllid ar eich rhan a rhoi cyngor lles, budd-daliadau a dyled i chi i'ch helpu i gyllidebu a thalu'ch biliau.
- Gwybodaeth iechyd - efallai y bydd angen i ni wneud hyn i asesu angen ac i ddarparu addasiadau a chymorth.
- Gwybodaeth bersonol arall a fydd yn amrywio fesul achos er mwyn ein helpu i ddatrys achosion o dorri contract meddiannaeth/tenantiaeth garej, ymddygiad gwrthgymdeithasol honedig neu faterion diogelu.

Efallai y byddwn yn derbyn gwybodaeth amdanoch a'ch cartref gan drydydd parti gan gynnwys:

- Asiantaethau budd-daliadau gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau - sy'n ymwneud â'ch darpariaeth tai
- Landlordiaid blaenorol pan fyddwch yn cael eich ystyried ar gyfer contract meddiannaeth
- Asiantaethau lles, meddygol neu gefnogol sy'n gysylltiedig â chi, a allai gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: Yr Heddlu, Gwasanaeth Tân, Gwasanaeth Ambiwlans, Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Iechyd, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevin, Addysg, Ysgolion, Colegau, Shelter Cymru, Cyngor ar Bopeth, Gwalia a Gofal.
- Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â darparu addasiadau.
- Cynghorwyr, Aelodau Seneddol, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu gynrychiolwyr/eiriolwyr eraill sy'n gweithredu ar eich rhan/cyfarwyddyd
- Sefydliadau ariannol mewn perthynas â thaliadau sy'n gysylltiedig â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej a rheoli dyledion.
- Llys Sirol mewn perthynas â thoriadau contract meddiannaeth/tenantiaeth garej.
- Achwynwyr i adrodd am doriad contract meddiannaeth/tenantiaeth garej honedig.
- Cofrestrfa Tir

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

1b. mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer perfformio contract y mae'r testun data yn barti iddo neu er mwyn cymryd camau ar gais y testun data cyn ymrwymo i gontract;

1e. mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wnaed er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr;

1f. mae angen prosesu at ddibenion y buddiannau dilys a ddilynir gan y rheolwr neu gan drydydd parti, ac eithrio pan fo buddiannau o'r fath yn cael eu diystyru gan fuddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol y testun data sy'n gofyn am ddiogelu data personol, yn enwedig pan fo'r testun data yn blentyn.

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol arbennig, yna rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod:

Deddf Diogelu Data 2018 - Atodlen 1 / Rhan 2
6 (1) Cyflawnir yr amod hwn os yw'r prosesu-
(a) Yn angenrheidiol at ddiben a restrir yn is-baragraff (2), a
(b) Yn angenrheidiol oherwydd rhesymau o fudd sylweddol y cyhoedd.
(2) Y dibenion hynny yw -
(a) ymarfer swyddogaeth a roddwyd i berson drwy ddeddfiad neu reol gyfreithiol;
(b) ymarfer swyddogaeth y Goron, Gweinidog y Goron neu adran y llywodraeth.

Mae deddfwriaeth Diogelu Data hefyd yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer data personol mewn perthynas ag euogfarnau troseddol a throseddau. Os bydd unrhyw ddata personol yn dod o fewn y categori hwn, yna rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 10 o'r Rheoliadau.

Mae'r amod uchod yn amod Erthygl 9 ac Erthygl 10 ar gyfer prosesu.

## Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

**Manylion y Rheolwr Data a Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: diogeludata@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth am ragor o wybodaeth.

**Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Tai Caerffili.

**Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth o fewn cyngor bwrdeistref sirol Caerffili**

Gall Cartrefi Caerffili rannu gwybodaeth gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Budd-daliadau Tai mewn perthynas â'ch contract meddiannaeth.
- Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion / Plant) mewn perthynas ag unrhyw bryderon diogelu, darpariaeth addasu ac unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig â'ch contract meddiannaeth/tenantiaeth garej.

- Gall Archwiliad Mewnol wneud archwiliadau i sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu darparu'n gywir.
- Treth y Cyngor mewn perthynas â'ch darpariaeth tai.
- Is-adran Incwm mewn perthynas ag unrhyw ddyled sydd arnoch ac sy'n gysylltiedig â thai.
- Gwasanaethau Cyfreithiol mewn perthynas ag unrhyw dorri contract meddiannaeth/tenantiaeth garej a all ddigwydd ac unrhyw gyngor gofynnol mewn perthynas â'ch contract meddiannaeth/tenantiaeth garej.
- Is-adran Yswiriant mewn perthynas â'ch polisi / hawliad neu ein polisi yswiriant adeiladu.
- Gwasanaethau Glanhau mewn perthynas â chasglu biniau, tipio anghyfreithlon.
- Glanhau Adeiladau mewn perthynas ag unrhyw lanhau eiddo.
- Is-adran Gynllunio mewn perthynas ag unrhyw geisiadau am addasiadau eiddo.
- Cefnogi Pobl mewn perthynas ag unrhyw ofynion cefnogi.
- Llinell Ofal mewn perthynas â gofynion cefnogaeth a chymorth
- Cwynion Corfforaethol mewn perthynas ag unrhyw anfodlonrwydd sydd gennych gyda'n gwasanaeth.
- Diogelwch y Cyhoedd mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej.
- Addysg mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â chontract meddiannaeth/diogelu.
- Diogelwch Cymunedol mewn perthynas ag unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chi neu'ch contract meddiannaeth/tenantiaeth garej fel naill ai achwynydd neu droseddwr.
- Adnoddau Dynol mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej.
- Cyllid Corfforaethol mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej.
- Cyngor/Dyraniadau Tai ac Atal Digartrefedd mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej lle y gallwch fod dan fygythiad o gael eich troi allan neu wynebu colli eich cartref.
- Adfywio Cymunedol mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej.
- Iechyd yr Amgylchedd mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej.
- Safonau Masnach mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej
- Trwyddedu mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej
- Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej
- Priffyrdd / Peirianneg mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej
- Gwasanaethau Profedigaethau / y Gwasanaeth Dywedwch wrthym Unwaith - mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej
- Gwasanaethau Arlwyo mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej.

**Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth ag eraill**

Gall Cartrefi Caerffili rannu gwybodaeth gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Sefydliadau Hyfforddiant / Ymgysylltu mewn perthynas â digwyddiadau.
- Landlordiaid Eraill, os ydych yn gwneud cais i symud cartref, mae'n ofynnol i ni ddarparu geirda contract meddiannaeth garej ar eich rhan.

- Asiantaethau lles, meddygol neu gefnogol sy'n gysylltiedig â chi, a all gynnwys: Yr Heddlu, Gwasanaeth Tân, Gwasanaeth Ambiwlans, Meddygon Teulu, Nyrsys Ardal, Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Carchardai, Gwasanaeth Iechyd, Ysgolion, Colegau, Shelter Cymru, Gofal, Gwalia, Cyngor ar Bopeth, Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent, Mencap ac ati.
- Cynghorwyr, Aelodau Seneddol, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu gynrychiolwyr eraill sy'n gweithredu ar eich rhan/cyfarwyddyd
- Sefydliadau ariannol mewn perthynas â thaliadau sy'n gysylltiedig â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej.
- Contractwyr sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan mewn perthynas â'r eiddo, er enghraifft atgyweiriadau, cynnal a chadw, addasiadau a chynnal a chadw statudol.
- Contractwyr sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan mewn perthynas â'ch contract meddiannaeth/tenantiaeth garej, e.e. cyngor ar ddyledion, cymorth contract meddiannaeth garej a.y.b.
- Perthynas Agosaf neu gysylltiadau teuluol/ffrind yr ydych wedi darparu eu henwau i ni mewn perthynas â phryderon lles, diogelu neu rwymedigaethau statudol.
- Cyfreithwyr sy'n gweithredu ar eich rhan/cyfarwyddyd
- Cwmni cyfleustodau mewn perthynas â newidiadau i ofynion cyflenwi.
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau mewn perthynas â hawliadau am gymorth ariannol.
- Asiantaethau lles anifeiliaid e.e. Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA) mewn perthynas ag unrhyw bryderon lles anifeiliaid.
- Dŵr Cymru Welsh Water mewn perthynas â newidiadau tariff a thariffau llai ar eich rhan/cyfarwyddyd.
- Asiantaethau olrhain mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej.
- Asiantaethau casglu dyledion mewn perthynas â dyled sy'n gysylltiedig â thai (cyn ac ar hyn o bryd).
- Llys Sirol mewn perthynas â thoriadau contract meddiannaeth/tenantiaeth garej.
- Cydweddu data â chyrff cyhoeddus eraill fel rhan o'r fenter Atal Twyll Genedlaethol
- Gall archwilwyr allanol wneud archwiliadau i sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu darparu'n gywir.
- Deiliaid contract eraill mewn perthynas â chofnodion a gymerwyd mewn cyfarfodydd Cynlluniau Tai Lloches.

### Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

### Manylion y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Bydd Cartrefi Caerffili'n cadw gwybodaeth yn ymwneud â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej cyhyd â bod y contract meddiannaeth/tenantiaeth garej yn

weithredol neu pan fo arian yn ddyledus ar gyfrif sy'n gysylltiedig â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej ac am gyfnod isafswm o 7 mlynedd ar ôl terfynu contract meddiannaeth/tenantiaeth garej.

Cynhelir recordiadau ffôn am o leiaf 12 mis a byddant yn cael eu dileu ar ôl 24 mis. Mae recordiadau teledu cylch cyfyng yn gweithredu'n barhaus ac fe'u cedwir am fis.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

**Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data**

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i wrthrychau'r data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun - mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk.

Er mwyn datgan eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwynion**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Bydd Cartrefi Caerffili'n casglu a phrosesu gwybodaeth amdanoch chi, er mwyn eich galluogi i reoli'ch contract meddiannaeth a/neu denantiaeth garej yn llwyddiannus a delio â'r cyllid sy'n gysylltiedig â'r contract meddiannaeth/tenantiaeth garej. Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon i roi'r cyfle i chi gymryd rhan mewn ymgysylltu â deiliaid/cynnwys deiliaid. Byddwn hefyd yn cofnodi ac efallai prosesu gwybodaeth ar bobl eraill sy'n byw gyda chi i sicrhau nad yw'r eiddo'n orlawn ac i asesu materion rheoli contract meddiannaeth/tenantiaeth garej eraill sy'n ymwneud â phobl eraill yn eich cartref. Efallai y bydd achlysuron pan fyddwn yn casglu a phrosesu gwybodaeth am bobl nad ydynt yn ddeiliadau contract meddiannaeth/tenantiaeth garej er mwyn rheoli cysylltiad ganddynt neu mewn cysylltiad â rhwymedigaeth gyfreithiol.

Y sail gyfreithiol ar gyfer casglu a phrosesu'ch gwybodaeth yw tasg gyhoeddus, rhwymedigaeth gytundebol a diddordeb dilys. Byddwn yn cadw gwybodaeth yn ymwneud â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej cyhyd â bod y contract yn weithredol neu pan fo arian yn ddyledus ar gyfrif sy'n gysylltiedig â chontract meddiannaeth/tenantiaeth garej ac am gyfnod isafswm o 7 mlynedd ar ôl terfynu contract meddiannaeth/tenantiaeth garej.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

https://www.caerffili.gov.uk/caerphillydocs/foi/privacynotices/privacy-notice-public-sector-housing-cy.aspx